# Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 3 – y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 5 Chwefror 2013** |
| Amser: | **09: - 11:00** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=en_400000_05_02_2013&t=0&l=en

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Mohammad Asghar (Oscar) AC**<br>**Mike Hedges**<br>**Julie Morgan**<br>**Gwyn R Price**<br>**Jenny Rathbone**<br>**Aled Roberts**<br>**Jocelyn Davies**<br>**Andrew RT Davies (Cadeirydd)** |
| Tystion: | **David Rees, Swyddfa Archwilio Cymru**<br>**Huw Vaughan Thomas, Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru**<br>**Emma Giles, Performance Specialist, Swyddfa Archwilio Cymru**<br>**Alan Morris, Swyddfa Archwilio Cymru**<br>**Anthony Barrett, Wales Audit Office Partner, Wales Audit Office** |
| Staff y Pwyllgor: | **Tom Jackson (Clerc)**<br>**Daniel Collier (Dirprwy Glerc)**<br>**Joanest Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)** |

### 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau ac aelodau'r cyhoedd i'r cyfarfod.

### 2. Gwybodaeth am adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar Fwrdd Draenio Mewnol Cil-y-coed a Gwastadeddau Gwynllwg

2.1 Croesawodd y Cadeirydd Anthony Barrett, Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol a David Rees, Rheolwr Llywodraethu Swyddfa Archwilio Cymru.

**Camau i'w cymryd:**

Gofynnwyd i Swyddfa Archwilio Cymru ddarparu:

- Nodyn gyda rhagor o wybodaeth am bresenoldeb aelodau a benodwyd yng nghyfarfodydd y Bwrdd Draenio (gan nodi aelodau awdurdodau lleol a swyddogion).

- Nodyn gyda gwybodaeth am aelodaeth y Bwrdd Draenio yn y gorffennol.

## 3. Gwybodaeth gan Archwilydd Cyffredinol Cymru am adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru 'Adroddiad Dilynol ar Weithrediadau Comisiwn Coedwigaeth Cymru'

3.1 Croesawodd y Cadeirydd Huw Vaughan Thomas, Archwilydd Cyffredinol Cymru, Alan Morris, Cyfarwyddwr y grŵp archwilio perfformiad ac Emma Giles, Arbenigwr perfformiad.

## 4. Papurau i'w nodi

4.1 Nododd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod blaenorol.

## 5. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

Eitemau 6 a 7.

## 6. Opsiynau ar gyfer ymdrin â Bwrdd Draenio Mewnol Cil-y-coed a Gwastadeddau Gwynllwg

6.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod opsiynau ar gyfer ymdrin â'r materion sy'n codi o adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, 'Archwiliad o Gyfrifon 2010-2011: Bwrdd Draenio Mewnol Cil-y-coed a Gwastadeddau Gwynllwg'.

**Cam i'w gymryd:**

Gofynodd y Pwyllgor i'r tîm clercio lunio papur cwmpasu ar gyfer ymchwiliad byr i'r materion a godwyd gan adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, 'Archwiliad o Gyfrifon 2010-2011: Bwrdd Draenio Mewnol Cil-y-coed a Gwastadeddau Gwynllwg'.

## 7. Opsiynau ar gyfer ymdrin â'r Adroddiad Dilynol ar Weithrediadau Comisiwn Coedwigaeth Cymru

7.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod y materion a godwyd gan adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru: Adroddiad Dilynol ar Weithrediadau Comisiwn Coedwigaeth Cymru

**Camau i'w cymryd**

Nododd y Pwyllgor gynnwys yr adroddiad.

Penderfynodd y Pwyllgor ofyn am ddiweddariad ysgrifenedig gan Brif Weithredwr Adnoddau Naturiol Cymru ar weithredu argymhelliad a wnaed yn flaenorol gan Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y trydydd Cynulliad ynghylch cyfranogiad y gymuned wrth wneud penderfyniadau.

**TRAWSGRIFIAD**

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.